DULL DIOGEL:

# RHEOLI PLÂU A HALOGI CEMEGOL

**Mae rheoli plâu yn effeithiol yn hanfodol i gadw plâu oddi ar y safle a'u hatal rhag lledaenu bacteria niweidiol. Mae hefyd yn hollbwysig eich bod yn atal cemegau rhag mynd i'r bwyd. Gwyliwch y fideo ar hyfforddiant diogelwch bwyd: rheoli plâu.**

| PWYNT DIOGELWCH | PAM? |
|---|---|
| **Plâu**<br>Edrychwch yn rheolaidd am arwyddion o blâu, er enghraifft, yn eich cypyrddau bwyd. | Gall plâu gario bacteria niweidiol. |
| Gwnewch yn siŵr nad ydych yn gadael unrhyw fwyd na phlatiau budr allan dros nos. Cofiwch lanhau unrhyw fwyd sy'n disgyn ar lawr hefyd. | Mae'r rhain yn fwyd i blâu |

## MATHAU O BLÂU

| | | |
|---|---|---|
| **Llygod mawr a llygod**<br>Chwiliwch am faw, bwyd wedi'i gnoi neu ddeunydd pecynnu wedi'i gnoi.  | **Chwilod du a morgrug**<br>Chwiliwch am y pryfed eu hunain. | **Clêr a phryfed eraill**<br>Chwiliwch am bryfed a chynrhon.  |

| PWYNT DIOGELWCH | PAM? |
|---|---|
| **Cemegau**<br>Darllenwch y label bob amser gan ddilyn y cyfarwyddiadau ar sut i ddefnyddio cemegau. | Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod cemegau yn gweithio'n effeithiol. |
| Peidiwch byth â gadael i gemegau/abwyd rheoli plâu, gan gynnwys chwistrelli, ddod i gysylltiad â bwyd, deunydd pecynnu, offer nac arwynebau gwaith. | Mae cemegau yn debygol o fod yn wenwynig i bobl. |
| Storiwch gemegau glanhau (e.e. cannydd, glanedydd) ar wahân i fwyd gan wneud yn siŵr eu bod wedi'u labelu'n glir. | Mae'n bwysig storio cemegau'n iawn er mwyn cadw bwyd a phlant yn ddiogel. |
| Cadwch bob cynnyrch glanhau a rheoli plâu allan o gyrraedd plant. | |

## BETH I'W WNEUD OS AIFF PETHAU O CHWITH

- Os byddwch chi'n gweld arwyddion o blâu, ffoniwch eich awdurdod lleol neu gontractwr plâu ar unwaith.
- Os ydych chi'n credu bod plâu wedi cyffwrdd ag offer, arwynebau gwaith neu gyfarpar, ewch ati i'w golchi a'u diheintio'n drylwyr i atal bacteria niweidiol rhag lledaenu.
- Os ydych chi'n credu bod plâu wedi cyffwrdd â bwyd mewn unrhyw ffordd, taflwch y bwyd.
- Os oes perygl bod cemegau glanhau neu gemegau rheoli plâu wedi mynd i'r bwyd, taflwch y bwyd.

**Ar eich taflen weithredu, nodwch beth aeth o'i le a sut aethoch chi i'r afael â'r sefyllfa.**

Wedi cwblhau'r dull diogel: Dyddiad: ____________ Llofnod: ____________